Camau Bach

Gwybodaeth i Ofalwyr

Cyflwyniad

Mae Hafal yn cael ei ariannu gan Raglen Mesur Iechyd Meddwl y Loteri Fawr i ddarparu cyngor, cefnogaeth a chyfarwyddyd i bobl sydd yn defnyddio gwasanaethau Hafal ynghylch eu hanghenion cyflogaeth, gwirfoddoli, addysg a hyfforddiant.

Mae Hafal yn cefnogi gofalwyr y bobl hynny sydd yn gwella o afiechyd meddwl difrifol ar draws Cymru i reoli eu cyfrifoldebau gofalu ac i barhau mewn gwaith, addysg neu hyfforddiant. Os oes angen unrhyw gyngor, cefnogaeth neu gyfarwyddyd arnoch o safbwynt y materion hyn, cysylltwch os gwelwch yn dda â:

Swyddogion Cyflogaeth Rhanbarthol
Hafal
Swît C2,
Tŷ William Knox, Ffordd Britannic
Llandarsi, CASTELL-NEDD
SA10 6EL
Ffôn: 01792 816600
E-bost: hafal@hafal.org

Swyddog Cyflogaeth Rhanbarthol
Hafal
5 Heol Rhiw
Bae Colwyn
CONWY
LL29 7TF
Ffôn: 01492 534769
E-bost: northwales@hafal.org

Yn y daflen, rydym wedi cynnwys ychydig o wybodaeth ddefnyddiol oddi wrth y Ganolfan Byd Gwaith. Os hoffech drafod unrhyw un o'r materion yma ymhellach, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda'n Swyddogion Cyflogaeth Rhanbarthol sydd wedi eu rhestru uchod.

Cyhoeddwyd Strategaeth Gofalwyr y Llywodraeth 'Carers at the heart of 21st century families and communities' ym Mehefin 2008. Amlinellodd agenda byrdymor a gweledigaeth hirdymor y Llywodraeth ar gyfer rhoi gofal a chefnogaeth i ofalwyr yn y dyfodol.

Mae'r Strategaeth Gofalwyr yn pennu 2018 fel dyddiad penodol ar gyfer:

- Bydd gofalwyr yn cael eu parchu fel partneriaid gofal arbenigol a byddant yn cael mynediad at y gwasanaethau integredig ac wedi eu personoli sydd angen arnynt er mwyn eu cefnogi yn eu rôl gofalu.
- Bydd gofalwyr yn medru cael bywydau eu hunain ar y cyd â'u rôl gofalu. Bydd gofalwyr yn cael eu cefnogi i gadw'n iach mewn cyd-destun meddyliol a chorfforol ac yn cael eu trin ag urddas.

- Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu rhag gofal amhriodol ac yn derbyn y gefnogaeth sydd angen arnynt er mwyn dysgu, datblygu a ffynnu i fwynhau plentyndod positif ac i gyflawni'r holl ddeilliannau sydd i'w canfod yn 'Mae Pob Plentyn yn Bwysig' (Every Child Matters).

Mae'r cyfrifoldeb dros sicrhau bod y deilliannau yma'n cael eu cyflawni yn cael ei rannu rhwng adrannau llywodraeth gwahanol gan gynnwys:

Y Ganolfan Byd Gwaith fel rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau
Mae'r Strategaeth Gofalwyr yn cynnwys ymrwymiad penodol bod y Ganolfan Byd Gwaith yn gwella'r cymorth a'r cyngor sydd ar gael i ofalwyr sy'n dymuno chwarae rhan am y tro cyntaf neu ddychwelyd i'r farchnad lafur

- Rheolwyr Partneriaeth Gofal mewn pob ardal Canolfan Byd Gwaith
- Hyfforddiant arbenigol ar gyfer cynghorwyr Canolfan Byd Gwaith sydd yn gweithio gyda gofalwyr
- Gofalwyr i gael mynediad at raglenni cyflogaeth priodol
- Cyllid am ofal amgen ar gyfer y gofalwyr hynny sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau wedi eu cymeradwyo gan y Ganolfan Byd Gwaith fel rhan o raglen waith.

Mae'r Rheolwyr Partneriaeth Gofal yn:

- Gweithredu fel pwynt canolog strategol ar gyfer materion cyflogaeth gofalwyr lleol
- Adeiladu a chynnal y berthynas gyda mudiadau lleol sy'n cefnogi gofalwyr and
- Asesu'r galw ymhlith cwsmeriaid am gymorth
- Gweithio gyda rheolwr partneriaeth Canolfannau Byd Gwaith eraill
- Sicrhau bod cynghorwyr Canolfan Byd Gwaith yn meddu ar y wybodaeth

O'r 7fed o Ragfyr 2009, bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn darparu mynediad gwell at gymorth i gyflogaeth i fwy o ofalwyr. Mae hyn yn cynnwys:

- Cyngor parhaus sydd wedi ei deilwra ar gyfer cymorth i gyflogaeth
- Mynediad at weithgareddau sydd wedi eu cymeradwyo gan y Ganolfan Byd Gwaith
- Cymorth gyda threuliau, er enghraifft costau teithio i gyfweliadau, costau cyrsiau, costau gofal plant a chostau gofal amgen
- Cymorth ariannol megis y premiwm hyfforddi wythnosol o £15.00

O'r 7fed o Ragfyr 2009, bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn medru darparu cymorth gyda'r gost o ofal amgen ar gyfer gofalwyr:

- Cymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddi sy'n gysylltiedig â chyflogaeth ac sydd wedi eu cymeradwyo gan y Ganolfan Byd Gwaith
- Mynychu cyfweliadau gyda chynghorwyr, darparwyr a chyflogwyr

Am fwy o wybodaeth am eich hawliau fel gofalwr yng nghyd-destun cyflogaeth, ewch os gwelwch yn dda i <http://www.hafal.org/hafal/pdf/publications/Carers%20in%20Employment.pdf>